11 Rhuthun

Tref hanesyddol a pharcdir gyda golygfeydd gwych

Pellter: 1.8km / 1.1 milltir

Amser: Tua 1 awr

Parcio a chychwyn: Y maes parcio ar waelod Stryd Clwyd (£)

Cyf. Grid: SJ121582, Map OS Explorer 265

Graddfa: Hawdd, ond nid yn wastad am fod Rhuthun ar fryn

Cyfleusterau: Popeth yn Rhuthun www.ruthin-wales.co.uk www.ruthin.com

I gael mwy o wybodaeth am hanes y dref, mynnwch gopi o'r daflen 'Llwybr y Dref' o'r Llyfrgell, Yr Hen Garchar neu'r Ganolfan Crefftau.

Historic town and parkland with superb views

Distance: 1.8km / 1.1 miles

Time: Allow 1 hour

Parking and start: Car park at the bottom of Clwyd Street (£)

Grid ref: SJ121582, Explorer map 265

Grade: Easy but not flat as Ruthin is built on a hill

Facilities: All in Ruthin www.ruthin-wales.co.uk www.ruthin.com

For more details on the history of the town pick up a copy of the Town Trail from the Library, Ruthin Gaol or Craft Centre.



Y Daith Gerdded

1. O ben draw'r maes parcio ewch ar y llwybr sy ar ochr dde'r toiledau, yna gwyrwch i'r dde ar lwybr culach ac ewch heibio'r man chwarae. Daliwch ymlaen ar y llwybr hwn gan gadw'r afon ar eich llaw dde. Anwybyddwch y ddwy bont fetal. Ewch ymlaen ar lan yr afon ar y llwybr glaswellt. Tueddwch i'r chwith i fynd drwy'r giât mochyn sydd yng nghornel y cae, ar ochr chwith y drydedd bont. Dilynwch y llwybr sydd o'ch blaen gan gadw'r ffens ar eich llaw chwith. Cerddwch o dan y bont gerrig drwy dwnnel ar y chwith. Ewch drwy'r giât mochyn a throi i'r chwith gan ddilyn y llwybr dros y cae a chadw'r ffens ar y chwith.

2. Ewch dros y gamfa a chroesi'r ffordd. Trowch i'r chwith a cherdded ar y pafin yn ôl i Ruthun. Bydd golygfeydd gwych o Fryniau Clwyd ar y dde a Chastell Rhuthun ar y chwith.

Dechreuwyd adeiladu Castell Rhuthun yn 1277 yn un o gylch o gestyll Edward I a godwyd i ddangos ei rym ar ôl iddo oresgyn Gogledd Cymru. Bu llawer o frwydro o amgylch y castell pan wrthryfelodd y Cymry yn dilyn hyn. Yn ystod y Rhyfel Cartref y cafodd ei ddefnyddio'n filwrol ddiwethaf, yn gadarnle'r Brenhinwyr. Ar ôl i'r Brenhinwyr gael eu gorchfygu yn 1646, fe chwalodd y Pengryniaid y castell. Yn 1826, codwyd yr adeilad presennol o fewn terfynau'r castell canoloesol. Mae'r arddull yn Gothig Fictoraidd. Am nifer o flynyddoedd roedd yn dŷ preifat a bu'r perchnogion yn estyn croeso i bobl ffasiynol Oes Fictoria ac Edward. Gwesty yw'r castell erbyn hyn, ac mae ar agor am luniaeth i'r rhai nad ydynt yn aros ynddo.

Yn rhyfedd iawn, mae adfeilion yr hen gastell canoloesol wedi goroesi'n dda, ond maent o'r golwg. Y lle gorau i'w gweld yw o ardd

Ruthin

Nantclwyd y Dre, tŷ sydd ar y chwith ymhellach ymlaen ar y ffordd. Dyma un o dai trefol hynaf gogledd Cymru, yn hanner- coediog ac a adeiladwyd yn 1435. Adnewyddwyd yn ddiweddar gyda phob ystafell yn dangos cyfnod gwahanol yn oes y tŷ. Yn clwydo yn y to mae'r ystlum bedol leiaf, sy'n brin. Gellir eu gwylio drwy we-gamera. I gael mwy o wybodaeth am yr oriau agor (£), ffon: 01824 704976

3. Ewch i ochr arall y gylchfan i weld y sgwâr, a'r eglwys sydd y tu ôl i Swyddfa'r Post. Dewch yn ôl i'r gylchfan a throi i lawr i'r dde wrth Fanc Barclays. Cerddwch i lawr i waelod Stryd Clwyd ac i'r maes parcio.

Hen garchar y dref yw'r adeilad mawreddog sydd ar y dde ar waelod Stryd Clwyd. Mae'r adeilad sydd ar ochr y ffordd ar Stryd Clwyd o 1775; yr adeg honno, daliwyd cymharol ychydig o garcharorion yma am gyfnodau hir. Yn y cefn, mae adeilad talach o oes Fictoria. Codwyd yn null Carchar Pentonville, mae golwg cadarnach a llwm arno gyda ffenestri bach y celloedd a'r bariau. Adnewyddwyd y carchar Fictoraidd, ac mae ar agor i'r cyhoedd (£). Am fwy o wybodaeth a'r oriau agor, ffon: 01824 708274 neu ewch i www.ruthingaol.co.uk

The Walk

1. From the rear of the car park take the path to the right of the toilets then bear right on the narrower path passing the play area. Continue ahead on this path keeping the river on the right, ignoring two metal bridges. Continue alongside the river on a grassy path. Bear left to go through the kissing gate in the corner of the field, to the left of a third bridge. Follow the path ahead keeping the fence to your left. Go under a stone bridge through a tunnel on the left. Go through the kissing gate and turn left following the path across the field with the fence on the left.

2. Go over the stile and cross the road. Turn left and walk along the pavement back into Ruthin, with superb views of the Clwydian Range on the right and Ruthin Castle on the left.

Ruthin Castle was begun in 1277 as one of Edward I's formidable ring of castles built as a show of strength after his invasion of North Wales. The castle saw much action during the subsequent Welsh revolts but was last used for military purposes during the Civil War when it was a Royalist stronghold. The Roundheads laid waste to the castle after the Royalist defeat in 1646. The present 'castle' was built within the confines of the medieval castle in 1826 in Victorian Gothic style. For many years it was a grand private house whose owners entertained fashionable Victorian and Edwardian Society. It is now run as a hotel but is open to non-residents for refreshments.

The ruins of the medieval castle are surprisingly well preserved although hidden. The best view can be had from the garden of Nantclwyd y dre, which is further along the road on the left. Half-timbered Nantclwyd y dre is one of the oldest townhouses in North Wales, dating from 1435. It has recently been restored and each room reflects a different period in its long history. Rare Lesser Horseshoe Bats roost in the roof and can be watched via a web-cam. For further information and opening hours (£) tel: 01824 704976

3. Cross the roundabout and explore the square and church, situated behind the Post Office. Return to the roundabout and turn right by Barclays Bank. Walk down Clwyd Street back to the car park.

The imposing building on the right at the bottom of Clwyd Street is the old town gaol. The building edging Clwyd Street dates from 1775 when relatively few prisoners were held for long periods. The taller imposing Victorian building at the back was based on Pentonville Prison and looks more secure and austere, complete with its small barred cell windows. The Victorian gaol has been restored and is open to the public (£). For more information and opening hours tel: 01824 708274 or visit www.ruthingaol.co.uk

*Mae tref **Rhuthun** yn un o drefi tlysaf Sir Ddinbych, gan sefyll yn erbyn cefndir godidog Bryniau Clwyd. Yn dringo'r allt tua Sgwâr Sant Pedr mae strydoedd culion, ac ar y naill ochr a'r llall iddynt gwelir hen adeiladau sy'n gymysg o ran eu defnydd a'u harddull.*

Ar ochrau'r sgwâr ei hunan, mae cymysgedd gwych o adeiladau amrywiol - yn hanner-coed, brics, gwyngalch a charreg, ac arnynt doi cam o lechi neu hen deils. Mae hanes cythryblus i'r dref, fel yr awgryma'r enw 'Rhuthun' sef y 'Gaer Goch' (cyfeiriad at y tywodfaen a ddefnyddid i godi'r castell). Bu'r gwrthdrawiad mwyaf dramatig pan anrheithiodd Owain Glyndŵr y dref yn 1400 yn ystod ei wrthryfel yn erbyn yr Arglwydd Grey trahaus o Ruthun. Llosgwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau yn llwyr.

***Ruthin** is one of the most picturesque towns in Denbighshire, set against the stunning backdrop of the Clwydian Range. Narrow winding streets, lined with tightly packed old buildings of assorted styles and materials, climb steeply up the hillside to St Peter's Square. The square itself is edged with a wonderful mix of buildings - half-timbered, brick, whitewashed and stone - with uneven roofs of slate or mellow old tiles. The town has a turbulent history, reflected in its name, which means 'red fortress' (a reference to the red sandstone used to build the castle). The most dramatic conflict was the sacking of the town by Owain Glyndŵr in 1400, in his revolt against the tyrannical English Lord Grey of Ruthin when most of the buildings were burned down.*